

Estyn am y sêr: Rhwydwaith Seren a cheisiadau i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt o Gymru

[View this post in English | Darllenwch yr erthygl yma yn Saesneg](#)
06/07/17

Rhwydwaith o ganolfannau rhanbarthol yw Seren a luniwyd i gefnogi pobl ifanc mwyaf galluog Cymru i gyflawni eu potensial academaidd a chael eu derbyn i brifysgolion blaenllaw, gan gynnwys Rhydychen a Chaergrawnt. Mae'r erthygl hon yn dilyn yr [erthygl flaenorol](#) am ymestyn disgyblion a allai gyflawni'n uchel yng Nghymru.

Prosiect Llysgennad Oxbridge

Ym mis Mai 2013, penodwyd Paul Murphy, cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn Llysgennad Oxbridge Llywodraeth Cymru, i ganfod pam y bu gostyngiad yn nifer y myfyrwyr a oedd yn gwneud cais i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt a'r nifer a oedd yn cael eu derbyn yno.

Amcanion y prosiect oedd:

- adolygu'r ymchwil a'r data a oedd ar gael ynghylch ceisiadau a derbyniadau i Oxbridge;
- nodi'r rhwystrau sy'n atal myfyrwyr rhag dewis y prifysgolion hyn;
- gwerthuso'r mentrau a'r rhaglenni sy'n annog myfyrwyr i ymgeisio am le yn Oxbridge.

Sefydlu canolfannau'r Rhwydwaith Seren

Ym [mis Mehefin 2014](#), cyflwynodd Paul Murphy [Adroddiad Terfynol Llysgennad Oxbridge Cymru](#) i Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd. Prif argymhelliad yr adroddiad oedd sefydlu:

rhwydwaith genedlaethol o hybiau partneriaeth....sichrau bod ysgolion a cholegau'n gallu dysgu oddi wrth ei gilydd, a rhannu adnoddau i gefnogi eu myfyrwyr mwyaf galluog yn academaidd.

Byddai'r canolfannau hyn yn sichrau cysondeb yn y gefnogaeth i'r myfyrwyr sydd â'r potensial mwyaf ledled Cymru. Ynghyd ag ysgolion a cholegau, byddai disgwyl i



brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt gyfrannu at y canolfannau hefyd. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad a sefydlwyd rhwydwaith Seren ym [mis Ionawr 2015](#).

Roedd yr adroddiad yn cynnwys 15 argymhelliad arall, gan gynnwys:

- Dylai Llywodraeth Cymru godi safonau TGAU, ac yn bwysicach fyth, safonau Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch myfyrwyr Cymru;
- Dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â Rhydychen a Chaergrawnt, a thrwy'r canolfannau, sicrhau mynediad i wybodaeth ddibynadwy a chywir i chwalu canfyddiadau anghywir ynghylch astudio yn Rhydychen a Chaergrawnt ac i godi ymwybyddiaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr o Gymru;
- Dylai'r hybiau a'r prifysgolion lunio canllawiau ar rannu'r arferion gorau uwch-gwricwlaidd academaidd rhwng ysgolion, colegau a phrifysgolion;
- Dylai'r prifysgolion wella'u hadborth i helpu athrawon yng Nghymru ddeall y profion derbyn a'r broses gyfweld.

Strwythur

Ar [15 Ionawr 2015](#), lanswyd y tair canolfan cyntaf, a chawsant eu hehangu wedyn ledled Cymru. Ar ddechrau blwyddyn academaidd 2016/17, roedd [11 canolfan](#) yng Nghymru, a oedd yn cefnogi dros 2,000 o fyfyrwyr. Bellach, mae gan bob myfyriwr cymwys yng Nghymru fynediad at ganolfan.



Canolfannau Rhwydwaith Seren

- 1 Sir y Fflint a Wrecsam
- 2 Abertawe
- 3 Rhondda Cynon Taf & Merthyr
- 4 Tudful Consortia EAS
- 5 Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin
- 6 Caerdydd
- 7 Castell-nedd Port Talbot, Powys a Phen-y-Bont ar Ogwr
- 8 Conwy a Sir Ddinbych
- 9 Gwynedd ac Ynys
- 10 Môn Ceredigion
- 11 Bro Morgannwg



4

Mae pob canolfan yn bartneriaeth o ysgolion a cholegau Addysg Bellach, wedi ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru a [rhai o brifysgolion blaenllaw'r DU](#), gan gynnwys Rhydychen, Caergrawnt, prifysgolion grŵp Russell ac Ymddiriedolaeth Sutton 30. Mae'r sefydliadau yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i ddatblygu rhaglen gymorth ar gyfer pobl ifanc yn eu rhanbarth, a arweinir gan gydlynnydd canolfan. Ni chaiff myfyrwyr



wneud cais uniongyrchol i fod yn rhan o'r Rhwydwaith Seren. Rhaid iddynt gael eu henwebu gan athrawon, yn seiliedig ar eu canlyniadau TGAU. Ym mis [Mawrth 2017](#), cyhoeddodd y [Gweinidog Dysgu Gydol Oes a Sgiliau](#) ar y pryd brosiect newydd rhwng Coleg yr Iesu, Prifysgol Rhydychen a Rhwydwaith Seren. Bydd Coleg yr Iesu yn cynnal [ysgol haf](#) ddi-dâl i fyfyrwyr o Gymru ym mis Awst 2017, y rhaglen gyntaf o'i fath ar gyfer myfyrwyr o Gymru yn unig.

Nodau

Nod y Rhwydwaith Seren yw ysbrydoli myfyrwyr ynglŷn â'u dyheadau a rhoi cymorth i fyfyrwyr ac athrawon i sicrhau y gall pobl ifanc disgleiriaf Cymru gyrraedd eu potensial a chael eu derbyn i brifysgolion gorau'r DU. Er mwyn gwneud hyn, mae'r rhaglen yn anelu at:

- Herio myfyrwyr i ymestyn eu gwybodaeth y tu hwnt i'r cwricwlwm Safon Uwch, drwy gynnal gweithdai ar bynciau penodol;
- Cynnig cyngor ymarferol a chymorth ar wneud cais UCAS a pharatoi ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau;
- Cysylltu myfyrwyr â phrifysgolion gorau'r DU, gan roi gwybodaeth am gyrsiau, ysgolion haf a gweithdai;
- Cefnogi ysgolion ac athrawon o ran darparu gwybodaeth, cyngor a gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr disglair.

Y cyd-destun polisi

Mae'r angen i godi safonau, yn enwedig ymhlith y disgyblion mwyaf galluog a dawnus, yn un o nodau allweddol mentrau polisi Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Roedd adroddiad [OECD, Improving Schools in Wales: An OECD Perspective \(PDF 3.57 MB\)](#) (2014) yn gweld gwendid yn system addysg Cymru gan ddweud bod cyfran uchel a chynyddol o bobl ifanc sy'n tangyflawni a chyfran isel o bobl ifanc sy'n cyflawni'n dda. Fel yr esboniwyd yn ein [herthygl flaenorol](#), er bod cyfran y disgyblion sy'n cael 5 neu ragor o raddau TGAU A* - C wedi cynyddu, mae'r gyfran sy'n cael 5 neu ragor o raddau A* neu A wedi gostwng. Amlygwyd hyn gan [ganlyniadau PISA](#) 2015 Cymru a oedd yn dangos bod perfformiad ar y lefelau uwch o hyfedredd yn is na chyfartaledd yr OECD, ac yn is na gwledydd eraill y DU. Mae'r



adroddiad yn argymhell bod angen gwneud mwy i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog a thalentog. Amlygwyd y broblem hon yn Adroddiad Terfynol Llysgennad Oxbridge:

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar godi cyfartaledd lefelau cyrhaeddiad ysgolion a cholegau, gan roi pwyslais penodol ar lythrennedd a rhifedd. Er hynny, er mwyn sicrhau bod yr ysgolion a'r colegau hyn yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi'r myfyrwyr sydd â'r gallu academiaidd mwyaf, dylid ystyried sut i gydnabod llwyddiant o ran y graddau uchaf yn allanol, un ai drwy fandio [categoriadau ysgolion] neu gloriannu perfformiad mewn ffyrdd eraill.

Dywedodd yr Ysgrifennydd y Cabinet wrth y fforwm trafod ar [Y genhadaeth genedlaethol o ddiwygio addysg – busnes pawb](#), a gynhaliwyd gan Positif ar 9 Mai 2017, fod Llywodraeth Cymru yn mynd ati i edrych ar gynllun wedi'i dargedu i ymestyn y disgyblion mwyaf galluog a thalentog, yn cynnwys y Rhwydwaith Seren. Cyfeiriodd Kirsty Williams hefyd at lwyddiant y rhwydwaith yn ei datganiad ynghylch yr Ymgynghoriad ar Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol ar [20 Mehefin](#):

Mae ein rhaglen Seren, er enghraifft, yn rhoi enghraifft dda iawn o'r hyn y gellir ei gyflawni.

Cyrhaeddiad a cheisiadau Oxbridge

Yn ogystal â thrafod y broblem o lefelau isel o gyrhaeddiad uchel yn y system addysg yng Nghymru, nododd Adroddiad Terfynol Llysgennad Oxbridge Cymru nad yw myfyrwyr Cymru yn gwneud cystal ym mhroses dderbyn Rhydychen a Chaergrawnt, o gymharu â myfyrwyr eraill yn y DU. Mae'r ddogfen [Cyrhaeddiad myfyrwyr Cymru a'r ymgeiswyr sy'n cael eu derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt: y dystiolaeth: Crynodeb gweithredol estynedig](#), rhan o Brosiect Llysgennad Oxbridge, yn cyfeirio at ffactorau posibl eraill y gallai bod yn werth casglu data a dadansoddiadau pellach amdanynt. Gallai'r rhain gynnwys: cymorth addysgol, yn nhermau addysgu, uchelgais, argaeledd pynciau a chyfuniadau pynciau, geirda UCAS; i ba raddau y mae'r unigolyn wedi paratoi, yn nhermau cymhelliant ac archwilio uwch-gwricwlaidd.

Mae Prifysgol Rhydychen yn cyhoeddi ystadegau derbyn, wedi eu rhannu rhwng astudiaethau israddedig ac ôl-raddedig, gan gynnwys ystadegau [yn ôl rhanbarth](#).



Mae'r tabl isod yn dangos bod cyfradd llwyddiant myfyrwyr israddedig yng Nghymru wedi cynyddu ers 2013 ac mai'r llwyddiant cyfartalog ers 2014 yw 19.5%.

Tabl 1: Ystadegau derbyn Prifysgol Rhydychen

	Ceisiadau o Gymru		Derbyniwyd	
	Nifer		Nifer	%
2015	394		77	19.5
2014	411		80	19.5
2013	384		55	14.3
2012	425		75	17.6

Mae Prifysgol Caergrawnt yn cyhoeddi [ystadegau derbyn blynyddol](#) ar gyfer astudiaethau israddedig, sydd hefyd yn cynnwys ystadegau yn ôl rhanbarth. Mae'r tabl isod yn dangos bod ceisiadau gan fyfyrwyr o Gymru rhwng 2013 a 2016 yn cynrychioli 1.6% o'r holl geisiadau i'r brifysgol. Gostyngodd y ganran o gynigion i fyfyrwyr o Gymru drwch blewyn, o 2.0% yn 2014 i 1.6% yn 2016. Cynyddodd y gyfradd llwyddiant gyffredinol o 19.6% yn 2013 i 26% yn 2014, ond gostyngodd i 20.7% yn 2016.

Tabl 2: Ystadegau derbyn Prifysgol Caergrawnt

	Ceisiadau		Cyfraddau derbyn a llwyddo		Cyfraddau derbyn ceisiadau o Gymru (%)
	Nifer o Gymru	% cyfanswm y ceisiadau	Nifer y myfyrwyr o Gymru	% cyfanswm y ceisiadau llwyddiannus	
2016	276	1.6	57	1.6	20.7
2015	257	1.6	63	1.8	24.5
2014	269	1.6	70	2	26
2013	255	1.6	50	1.5	19.6
2012	269	1.7	60	1.7	22.3

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y cymorth a ddarperir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i Laura Beth Davies ar gyfer ei hastudiaethau academiaidd a'i hinterniaeth gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i galluogodd i gwblhau'r erthygl hon.

Erthygl gan Laura Beth Davies, Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru



Llun: o Lywodraeth Cymru [Cefnogi Myfyrwyr Disgleiriaf Cymru](#) (2017)

Tabl 1: [Ystadegau Ceisiadau Prifysgol Rhydychen – Rhanbarthau'r DU](#)

Tabl 2: Ffynhonnell: [Prifysgol Caergrawnt](#)

